# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

28 Chwefror 2022

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd trwy We-Ddarlledu o Bell ar, Dydd Llun, 7 Mawrth 2022 am 10.00am i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

**3. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2021 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi (Tudalennau 3 - 8)**

**4. Ystyried adroddiad ar Ddarpariath TGCh Aelodau yn dilyn etholiadau 2022 (Tudalennau 9 - 12)**

**5. Ystyried diweddariad ar adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Tudalennau 13 - 16)**

**6. Ystyried adroddiad ar weledigaeth ar gyfer cynnal cyfarfodydd o bell o fis Mai 2022 (Tudalennau 17 - 20)**

**7. Ystyried adroddiad ar raglen Ymsefydlu Aelodau yn dilyn Etholiadau Cyngor Sir ym mis Mai 2022 (Tudalennau 21 - 24)**

**8. Ystyried adroddiad Hunan-Werthuso Craffu (Tudalennau 25 - 30)**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD a gynhaliwyd drwy fideo-gynhadledda ddydd Dydd Gwener, 15 Hydref 2021**

**PRESENNOL:** Cynghorydd Ceredig Davies (Cadeirydd), Cynghorwyr Clive Davies, Lloyd Edwards, Gwyn James, Dai Mason ac Wyn Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Keith Evans a Gareth Lloyd

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd; Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd; ac Alan Morris, Rheolwr Corfforaethol: TGCh a Rheoli Gwybodaeth

(10.00 - 11.50 am)

**Gweithdrefn**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**1 Ymddiheuriadau**
Dim

**2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**
Dim

**3 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 21 Mai 2021 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi**
**PENDERFYNWYD** nodi bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai 2021 yn gywir.

**Materion yn codi**
Eitem 3: Gofynnodd yr Aelodau a fy datblygiadau ynglŷn â darparu cyswllt band eang/ ffeibr cyflym iawn i holl Gynghorwyr ac Uwch Swyddogion y Cyngor. Nodwyd na fyddai hyn yn ariannol hyfyw o achos y gost uchel o osod y cyswllt. Dywedodd y Cynghorydd Clive Davies fod Ceredigion o flaen gweddill Cymru a bod 26% o'r boblogaeth bellach ar gyswllt ffeibr. Bydd yn cyfarfod ag Openreach ym mis Tachwedd a bydd gwefan newydd yn cael ei lansio i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau, technoleg a band eang ledled y Sir.
Eitem 9: Nododd y Cynghorydd Ceredig Davies fod cyfarfodydd misol rheolaidd bellach yn cael eu cynnal gyda'r Prif Weithredwr.

**4 Ystyried adroddiad ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 - materion sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd adroddiad i'r Pwyllgor i roi gwybod am yr elfennau o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n fwyaf perthnasol i'r Pwyllgor. Nodwyd y bydd strategaeth i annog cyfranogiad y cyhoedd yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet maes o law a bod Ceredigion yn arwain ar gynllun e-ddeiseb ar gyfer Cymru gyfan. Atgoffwyd yr Aelodau, oddi ar 5 Mai 2022, y bydd

dyletswydd i gyhoeddi cyfeiriad electronig a chyfeiriad post ar gyfer pob Aelod. Hefyd rhoddwyd y diweddaraf am ddarlledu cyfarfodydd yn electronig a'r gwaith o osod offer newydd yn Siambr y Cyngor i gyd-fynd â hyn. Er bod y Ddeddf wedi'i chyhoeddi, nodwyd ein bod yn dal i aros i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r canllawiau i gyd-fynd â hi, ac felly mae'n amhosib rhoi gwedd derfynol ar yr un o'r strategaethau hyn. Argymhellwyd y dylid cynnal cyfarfod arall o'r pwyllgor hwn pan fydd canllawiau pellach wedi dod i law.

Gofynnodd yr Aelodau a yw nifer y mynychwyr wedi cynyddu o ganlyniad i gynnal cyfarfodydd o bell, a chadarnhawyd bod y niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol. Hefyd gofynnodd yr Aelodau a allai'r cyhoedd gyflwyno copïau papur o ddeisebau yn ogystal â deisebau electronig. Cadarnhawyd bod adran yn y system sy'n cynnal y cynllun e-ddeiseb ar gyfer cyfuno cyfanswm y deisebau papur a lofnodir gyda chyfanswm y llofnodion electronig. Gofynnodd yr Aelodau hefyd am i hyfforddiant gael ei ddarparu i'r Aelodau ar y system hybrid o reoli cyfarfodydd cyn rhoi'r system ar waith.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** nodi'r elfennau o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac i drefnu cyfarfod pellach unwaith y bydd canllawiau ar gael oddi wrth Lywodraeth Cymru.

**5 Ystyried Adroddiad Cynllun Gweithredu Amrywiaeth Mewn Democratiaeth**

Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd adroddiad i'r Pwyllgor gan nodi fod y Cyngor wedi cymeradwyo'r Datganiad Amrywiaeth yn ei gyfarfod ar 23 Medi 2021. Nodwyd bod y Cynllun Gweithredu yn cynnwys chwe nod ac amserlen ar gyfer eu gweithredu, a bod rôl i'r grwpiau gwleidyddol wrth hyrwyddo amrywiaeth ac annog unigolion i sefyll yn yr etholiad ym mis Mai 2022.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** cytuno i'r cynllun gweithredu yn arwain at etholiadau lleol 2022 gyda'r nod o hyrwyddo amrywiaeth mewn democratiaeth.

**6 Ystyried adroddiad Adolygu Etholiadol o Ffiniau'r Wardiau**

Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd adroddiad i'r Pwyllgor i nodi fod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi cymeradwyo argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Ers cyhoeddi'r agenda roedd y Gweinidog bellach wedi rhoi'r newidiadau hyn mewn deddfwriaeth. Cyflwynir y Gorchymyn yn y Cyngor yr wythnos nesaf a bydd yn dod i rym o fis Mai 2022 ymlaen. Bydd unrhyw is-etholiadau a gynhelir cyn mis Mai y flwyddyn nesaf yn cyd-fynd â'r trefniadau presennol.

Nodwyd y bydd gwaith yn mynd rhagddo dros y misoedd nesaf i baratoi ar gyfer yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai a datblygir strategaeth gyfathrebu i sicrhau bod y trigolion yn ymwybodol o'r newidiadau. Sefydlwyd grŵp Gorchwyl a Gorffen i gynnal adolygiad llawn o faint ac aelodaeth holl

bwyllgorau'r Cyngor er mwyn sicrhau fod cynrychiolaeth briodol o ganlyniad i'r cwtogi yn nifer y Cynghorwyr. Y bwriad yw cyflwyno argymhellion y grŵp hwn i'r Cyngor ym mis Rhagfyr.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** cytuno i'r cynllun gweithredu fel y nodwyd uchod.

**7 Ystyried adroddiad ar Ddisgrifiadau o Rolau Aelodau Etholedig**

Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd adroddiad i'r Pwyllgor i roi braslun o'r diwygiadau a argymhellir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r disgrifiadau rôl presennol. Nodwyd mai'r bwriad yw bod y disgrifiadau rôl hyn yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â Fframwaith Datblygu Cymwyseddau Cynghorwyr Cymru. Nodwyd bod Swyddogion Cyngor Sir Ceredigion wedi bod ynghlwm â datblygu'r diwygiadau hyn ochr yn ochr â Swyddogion ac Aelodau sy'n cynrychioli holl Gynghorau Cymru.

Nododd yr Aelodau fod y disgrifiadau rôl yn cynnwys gweithgarwch gweithredol, gan ddweud bod diffyg ymwybyddiaeth ymhlith rhai Swyddogion o rôl yr Aelodau. Gwnaethant ofyn am i'r wybodaeth hon gael ei rhannu â'r Swyddogion.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gytuno i'r set ddiwygiedig o Ddisgrifiadau Rôl.

**8 Ystyried adroddiad ar Fframwaith Datblygu ar gyfer Cynghorwyr yng Nghymru 2021**

Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd adroddiad i'r pwyllgor i nodi bod y fframwaith wedi'i ddatblygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel canllaw er mwyn nodi blaenoriaethau hyfforddi a datblygu.

Nododd yr Aelodau fod dyletswydd ar bleidiau gwleidyddol i arwain ar nifer o'r eitemau hyn ac y byddai hyfforddiant yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall Aelodau roi cefnogaeth sylweddol i'w trigolion. Nododd yr Aelodau hefyd na fyddai rhai eitemau a gynhwysir yn y fframwaith yn berthnasol i bob Aelod, megis defnyddio *PowerPoint* ac *Excel*. Nodwyd mai fframwaith datblygu yw hwn lle byddai Aelodau'n gallu hunan-arfarnu eu hanghenion datblygu ac y byddai hyfforddiant yn cael ei deilwra wedyn i ddiwallu'r anghenion hynny.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor gytuno i fabwysiadu'r Fframwaith Datblygu ar gyfer Cynghorwyr.

**9 Ystyried adroddiad ar Ddarpariaeth TGCh Aelodau ar ôl etholiadau 2022**

Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd adroddiad i'r pwyllgor yn disgrifio'r offer a'r cymorth a fydd yn cael eu darparu gan y Gwasanaeth TGCh.

Cynigiwyd bod yr Aelodau yn cael cynnig yr un ddarpariaeth â staff y cyngor, sef gliniadur *Windows,* sgrin 24" gyda gallu docio mewnol neu orsaf ddocio ar wahân gan ganiatáu i'r gliniadur gael ei gysylltu ag un cebl, hefyd bysellfwrdd, llygoden, clustffon a chês cario syml. Gosodir cyfeiriad e-bost Ceredigion a chyfrif Office 365 a'r gallu i osod cymwysiadau ar hyd at bump dyfais bersonol. Darperir cyfleusterau argraffu a sganio yn Ystafell yr Aelodau a rhoddir mynediad i Wi-Fi yn holl swyddfeydd y cyngor. Bydd modd i Aelodau gael mynediad i e-bost a ffeiliau Office o ddyfeisiau personol a ffonau symudol a rhoddir hyfforddiant priodol ar ddiogelu data a'r dyfeisiau a roddir. Bydd cymorth TGCh gan y desgiau gwasanaeth TGCh corfforaethol yn parhau.

Gofynnodd yr Aelodau a allent brynu'r offer a ddefnyddir ganddynt ar hyn o bryd gan eu bod wedi bod yn eu defnyddio at ddibenion eraill. Nodwyd y byddai angen i bob Aelod ddychwelyd offer er mwyn glanhau'r cynnwys a'i gyflwyno i rywun arall neu waredu ag ef yn unol â'r trefniadau corfforaethol arferol ar gyfer adnewyddu offer. Esboniwyd mai'r rheswm am hyn yw bod offer a thrwyddedau yn berchen i'r Cyngor, ond byddai TGCh yn gallu helpu Aelodau i drosglwyddo gwybodaeth bersonol i ddyfeisiau eraill os oes angen.

Nododd yr Aelodau fod *i-pads* yn ddefnyddiol wrth weithio yn y gymuned i dynnu lluniau o'r mater dan sylw neu i ddangos dogfennau i drigolion. Gofynnodd yr Aelodau hefyd a ellid darparu 3G a 4G ar y gliniadur. Dywedodd swyddogion y byddai modd tynnu lluniau ar ffôn symudol sy'n gysylltiedig ag Office 365, ac nad oes slot ar gyfer cerdyn sim ar y gliniaduron a roddir i staff. Fodd bynnag, gellid ymchwilio i hyn os mai dyna ddymuniad yr Aelodau. Nododd yr Aelodau eu bod weithiau'n mynychu cyfarfodydd o leoliadau gwahanol megis y car a'u bod yn gallu colli pŵer neu gyswllt â'r we. Nodwyd hefyd, os darperir gwybodaeth yn hwyr, nad oes cyfle o bosib i fynd i'r swyddfa i'w argraffu.

Nodwyd bod Cadeiryddion y Pwyllgorau wedi cael cyfarpar ychwanegol yn ystod y cyfnod clo er mwyn iddynt weld cyfarfodydd dros zoom a darllen dogfennau ar fonitor ar wahân ar yr un pryd. Ni fyddai hyn yn bosib gydag *i-pad*. Nodwyd hefyd nad yw'r Aelodau yn gallu gweld newidiadau a farciwyd na chwaith ddarnau a uwcholeuwyd mewn dogfennau a ddarllenir ar *i-pad*. Nododd swyddogion fod angen 'rhesymoli' gan nad yw'n hyfyw yn ariannol i ddarparu popeth, a bod angen inni ystyried ein hôl troed carbon. Nododd yr Aelodau bryder ynglŷn â'u golwg wrth ddarllen dogfennau ar sgrin.

Hefyd gofynnodd yr Aelodau am ragor o ddiogelu data wrth ddefnyddio offer TGCh personol ar gyfer busnes y Cyngor. Nododd swyddogion y byddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar hyn. Nodwyd hefyd, oherwydd yr anawsterau cyflenwi parhaus, y byddai angen gosod archeb erbyn mis Ionawr er mwyn sicrhau bod offer ar gael i'r Aelodau erbyn mis Mai 2022.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor argymell y dylid cynnal arolwg o'r holl Aelodau i gael eu barn ynglŷn ag offer TGCh at y dyfodol.

**10 Ystyried Canllaw Ddrafft ar gyfer Ymgeiswyr Cyngor Sir Ceredigion**

Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd y Canllaw drafft i Ymgeiswyr er mwyn gofyn am fewnbwn y pwyllgor. Nododd y byddai'r canllaw ar gael yn electronig ar wefan y Cyngor ac yn Llyfrgelloedd y Cyngor, ac y byddai’n cael ei hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol hefyd. Nodwyd y bydd y ddogfen yn cael ei diweddaru pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael am yr Etholiadau Lleol.

Argymhellodd yr Aelodau fod cyfeiriad e-bost yn cael ei gynnwys ar ddiwedd y canllaw, a gofynnwyd i'r Aelodau gyfrannu i’r adran sylwadau ar dudalen 3.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r ddogfen ganllaw ddrafft.

**11 Ystyried Rhaglen Sefydlu Aelodau 2022 ddrafft**

Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd raglen sefydlu ddrafft i Aelodau yn amlinellu'r cyrsiau gorfodol y byddai angen i Aelodau eu mynychu cyn eistedd ar bwyllgorau. Nodwyd bod rhaglen hyfforddi ychwanegol wedi'i chynnwys ar gyfer Aelodau'r Cabinet. Cyfeiriwyd hefyd at yr hyfforddiant ychwanegol a ddarperir yn ystod y flwyddyn, a'r cysylltiad â Rhaglen Ddatblygu'r Aelodau.

Nododd yr Aelodau fod y rhaglen a gynigir yn hwylus a bod hi’n well darparu hyfforddiant mewn tameidiau llai.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor gytuno â rhaglen Sefydlu'r Aelodau yn dilyn etholiadau'r Cyngor Sir yn 2022.

**12 Ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad blynyddol i'r pwyllgor. Er mai dim ond unwaith y cyfarfu'r pwyllgor yn ystod y flwyddyn, nododd fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud. Os cytunir â’r adroddiad, fe’i cyflwynir i'r Cyngor yn ei gyfarfod yr wythnos nesaf.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'w gyflwyno i'r Cyngor ar 21 Hydref 2021.

**13 Ystyried adroddiad ar Ymgynghoriad ar Adroddiad Blynyddol Ddrafft 2022/23 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd adroddiad i'r Pwyllgor yn nodi bod Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2022/23 yn nodi'r fframwaith cydnabyddiaeth ar gyfer cynghorau cymuned a thref. Mae'r adroddiad drafft yn nodi, yn sgil cyni a phwysau ar gyllid cyhoeddus ers 2009, nad yw cydnabyddiaeth ariannol aelodau etholedig llywodraeth leol yng Nghymru wedi cadw i fyny gyda chwyddiant a chymaryddion posib eraill. Mae'r adroddiad hefyd yn diffinio trefniadau ariannol mewn perthynas â’r hawl i absenoldeb teuluol, cyfraniadau tuag at gostau gofal a chymorth personol, absenoldeb salwch, ad-dalu costau teithio a chynhaliaeth. Nodwyd bod ymgynghoriad ar yr adroddiad drafft ar agor hyd 26 Tachwedd 2021 ac y

gwneir y penderfyniad terfynol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - mae allan o ddwylo Cynghorau unigol. Nodwyd bod aelodau meinciau cefn yn cael cydnabyddiaeth ariannol ar yr un gyfradd ledled Cymru, ond mae bandio yn digwydd ar gyfer y rhai sy'n derbyn cyflogau uwch.

Nododd aelodau'r Pwyllgor eu pryder fod y cynnydd yn y gydnabyddiaeth ariannol yn ymddangos yn sylweddol, ond gan gydnabod fod y cynnydd yn adlewyrchu faint o waith a wneir gan Gynghorwyr. Mae'n cyfateb i oddeutu 3 diwrnod o waith yr wythnos ar gyfer aelod o'r meinciau cefn a bydd nifer y Cynghorwyr yn gostwng yn sylweddol oddi ar fis Mai 2022. Nodwyd y gall Cynghorwyr ddewis gwrthod y cynnydd fel unigolyn, a bod y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor. Cytunodd y pwyllgor i ohirio'r penderfyniad er mwyn i Banel Aelodau ei ystyried, fel y gall pob Aelod gyfrannu i'r ymateb a anfonir at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**14 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

Gofynnodd yr Aelodau i'r Swyddog sicrhau fod pleidlais gudd ar waith ar gyfer Cyfarfod Arbennig arfaethedig y Cyngor, a gwnaethant nodi eu bod yn edrych ymlaen at weld system ymholiadau 'Clic' yn cael ei chyflwyno o'r newydd gyda gwelliannau.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar xx.xx.xxxx**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:_________________**

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

**Dyddiad:** **7 Mawrth 2022**

**Teitl:** **Darpariaeth TGCh Aelodau ar ôl etholiadau 2022.**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Cynnig offer a chymorth TGCh ar gyfer y dyfodol**

**Cyflwyniad**

Y ddarpariaeth TGCh bresennol ar gyfer aelodau yw *dewis* Gliniadur neu iPad Apple gyda mynediad i e-byst a dogfennau'r Cyngor drwy'r wefan gorfforaethol.

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae'r ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau wedi trawsnewid i weithio'n ddigidol ac mae angen i staff a Chynghorwyr y Cyngor gael yr offer priodol i gysylltu o bell ac ymgymryd â'u busnes yn electronig.

Ar hyn o bryd, cynhelir holl gyfarfodydd y Cyngor yn rhithiol a daw amser pan fyddwn yn symud tuag at ddatrysiad hybrid gyda Chynghorwyr a Swyddogion yn gallu naill ai mynychu cyfarfodydd yn y Siambr neu o bell o swyddfa'r Cyngor neu amgylchedd gweithio o adref. Er mwyn galluogi'r ffordd newydd o weithio, mae angen datrysiad technegol priodol i alluogi Aelodau i gael mynediad i'r cyfarfod drwy fideo a hefyd arddangos yr holl ddogfennau angenrheidiol drwy'r llwyfannau digidol newydd a ddefnyddir i reoli cyfarfodydd yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn parhau i drawsnewid a gwneud arbedion effeithlonrwydd i alluogi gwasanaethau rheng flaen ac elfen allweddol o allu cyflawni’r arbedion hyn yw i leihau’r angen am gopïau papur o ddogfennau a gweithio'n electronig mewn amgylchedd diogel.

Gall Aelodau nad ydynt yn derbyn gwasanaeth TGCh ar hyn o bryd gael mynediad i gyfarfodydd o bell dros y ffôn, ond ni allant weld dogfennau a rennir ar y sgrin. Nodir hefyd bod Adran 43, Pennod 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor, o fis Mai 2022, gyhoeddi cyfeiriad electronig pob aelod o'r cyngor.

Mae'r adroddiad hwn dim ond yn disgrifio'r offer a'r cymorth arfaethedig o ran TGCh a ddarperir gan y Gwasanaeth TGCh.

**Datrysiad TGCh Arfaethedig ar gyfer 2022**

Cynigir bod yr trefniadau presennol yn cael ei ddisodli gan yr un opsiwn isod.

1. Gliniadur *Windows* gyda'r un fanyleb ag ar gyfer staff y cyngor.
2. Ffurfweddiad meddalwedd i ganiatáu mynediad i systemau corfforaethol mewnol priodol.
3. Dwy sgrin 24" gyda gallu docio mewnol neu orsaf docio ar wahân. Caniatáu i'r gliniadur gael ei gysylltu ag un cebl.

4. Bysellfwrdd, llygoden a phenset
5. Mae’r offer cario yn dibynnu ar ddewis personol i ddiwallu anghenion a dewisiadau'r defnyddwyr. Dylai Aelodau gwrdd a’u hanghenion personol eu hunain. Fodd bynnag, bydd cês gliniadur sylfaenol yn cael ei ddarparu ar gais.
6. Cyfeiriad e-bost Ceredigion a chyfrif *Office E3 365*.
7. Defnyddio cymwysiadau *Microsoft 365 Office* yn unol â chytundeb trwyddedu Microsoft. Bydd hyn yn caniatáu i Aelodau osod *Office* ar hyd at 5 dyfais bersonol.
8. Darparu cyfleuster argraffu a sganio ym mhob un o Ystafelloedd yr Aelodau ym Mhenmorfa a Chanolfan Rheidol.
9. Mynediad i *Wi-Fi* ym mhob un o swyddfeydd y cyngor.
10. Mynediad diogel i ffeiliau e-bost a Swyddfa o ddyfeisiau symudol personol
11. Hyfforddiant a briff priodol ar ddiogelu data a defnyddio unrhyw ddyfeisiau a gyhoeddir.
12. Cymorth TGCh gan ddesgiau gwasanaeth TGCh corfforaethol a chymorth o bell dros y ffôn a mynediad o bell yn ystod oriau’r desg gwasanaeth.
13. Dim ond meddalwedd y cytunwyd arno i'w osod fel gyda staff y cyngor
14. Bydd galwadau *Skype* (neu gyfatebol) yn cael eu darparu i alluogi galwadau sy'n dod i mewn/allan
15. Ni fydd argraffwyr yn cael eu darparu wrth i ni geisio cefnogi gwaith electronig ac arferion ecogyfeillgar a fydd yn cyfrannu at Gynllun Rheoli Carbon y Cyngor. Gellir anfon unrhyw lythyrau i'r ystafell bost Gorfforaethol a fydd yn argraffu ac yn postio'r llythyrau ar eich rhan (yr un gwasanaeth ag a ddarperir i wasanaethau'r Cyngor)
16. Rhaid i bob Aelod lofnodi a chytuno i bolisi defnydd derbyniol y Cyngor a pholisi diogelwch Data'r Cynghorydd.

Bydd y cynnig hwn yn rhoi datrysiad i bob Cynghorydd sy'n caniatáu iddynt fynychu holl gyfarfodydd y cyngor o bell drwy'r system newydd ar gyfer presenoldeb o bell yn y siambr. Ar hyn o bryd, nid yw dyfeisiau eraill fel dyfeisiau Android ac Apple yn gydnaws â'r system hybrid newydd o bell a byddai'n darparu mynediad cyfyngedig.

Gall pob Aelod gael mynediad i'w negeseuon e-bost drwy'r *Office 365*, lle maent yn defnyddio eu dyfais symudol eu hunain i gysylltu â'r gwasanaeth cwmwl diogel hwn. Rhaid i ddyfeisiau fodloni'r polisïau diogelwch awtomataidd ar adeg mynediad. Aelodau sy'n gyfrifol am eu GDPR eu hunain a chydymffurfiaeth polisi a dylent gymryd gofal ychwanegol os ydynt yn rhannu, lawrlwytho neu storio unrhyw ddata sensitif.

Gall pob Aelod optio i mewn i gynllun lwfans tuag at gostau fel defnyddio dros y ffôn a gallant ddefnyddio hyn tuag at gontract data symudol ar gyfer eu dyfais symudol eu hunain.

Bydd y datrysiad arfaethedig yn cael ei reoli'n llawn a gall technegydd sy'n cysylltu o bell i ddatrys problemau (yn ystod oriau swyddfa), ac yn y rhan fwyaf o achosion, peidio â gorfod mynd ag offer diffygiol i benmorfa neu Ganolfan Rheidol i gael cymorth. Ni ellir cefnogi dyfeisiau eraill fel hyn a byddai angen eu trosglwyddo'n ôl i dechnegydd i'w atgyweirio.

Mae'r datrysiad a gynigir yn bodloni'r holl safonau seiberddiogelwch sy'n diogelu gwasanaethau a data'r awdurdod.

**_iPads_ Presennol**

O fis Ionawr 2022, mae'r holl *iPads* presennol yn cael eu dadgomisiynu (dilëwyd cerdyn SIM a gwasanaethau'r cyngor wedi'u datgysylltu) ac yna'n cael eu trosglwyddo'n ôl i'r cynghorydd at eu defnydd personol eu hunain. Bydd cymorth ar yr *iPads* hyn yn dod i ben o ddyddiad datgomisiynu. Gellir defnyddio'r *iPads* gan ddefnyddio *Wi-Fi* ond ni fydd gwasanaeth TGCh y Cyngor yn eu cefnogi mwyach.

**Ystyriaethau adnewyddu i Aelodau sy'n cael eu hailethol yn Etholiadau Lleol Mai 2022**

Bydd yr holl Aelodau sy'n cael eu hailethol yn cael eu hasesu i weld a yw'r ateb gliniadur presennol yn briodol ac y caiff ei uwchraddio os bydd angen.

**Aelodau nad ydynt yn dychwelyd**

Os nad yw Aelodau'n dychwelyd ar ôl yr Etholiadau Lleol, yna bydd angen iddynt ddychwelyd yr holl offer a roddir i ddesgiau gwasanaeth Penmorfa neu Ganolfan Rheidol, ac eithrio'r *iPads* sydd wedi'u dadgomisiynu. Bydd yr offer hwn naill ai'n cael ei adnewyddu a'i ailgyhoeddi neu ei waredu yn unol â'n trefniadau adnewyddu corfforaethol arferol.

**Argymhellion:**

I'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gadarnhau mai'r amlinelliad o'r cynnig uchod yw'r ateb mwyaf priodol i ddiwallu anghenion Cynghorwyr a derbyn y ddarpariaeth gwasanaeth TGCh arfaethedig ar gyfer pob Cynghorydd o fis Mai 2022 ymlaen.

**Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**Arwyn Morris**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid**

**14 Chwefror 2022**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **7 Mawrth 2022** |
| **Teitl:** | **Diweddariad ar yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ynghylch Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am yr elfennau o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor** |

**Cefndir**
Pasiwyd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn y Senedd ar 18 Tachwedd 2020 a rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol iddi ar 20 Ionawr 2021. Gweithredir y Ddeddf drwy gyfrwng tri Gorchymyn Cychwyn a fydd yn dod ag amrywiol agweddau o'r Ddeddf i rym gam wrth gam.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n drafftio Canllawiau Statudol ar y gwahanol agweddau ar y ddeddfwriaeth gan gynnwys:

- Cynnal arolwg ynghylch amserau cyfarfodydd gyda'r nod o hyrwyddo a chefnogi aelodaeth awdurdodau lleol;
- Sicrhau bod cyfleoedd rhesymol ar gael i Aelodau o ran hyfforddiant a datblygu, a chyfleoedd i gynnal adolygiad blynyddol o anghenion hyfforddiant a datblygu;
- Cyfranogiad y Cyhoedd ac Ymgysylltu;
- Cynllun Deisebau;
- Cyfansoddiad y Cyngor, a Chanllaw i Gyfansoddiad y Cyngor;
- Gwneud darpariaeth i alluogi Arweinwyr y Weithrediaeth ac Aelodau'r Weithrediaeth i rannu swyddi;
- Sicrhau trefniadau craffu effeithiol;
- Trefniadau Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu;
- Swyddogaethau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd;
- Swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Er bod y rhan fwyaf o'r uchod eisoes ar waith, bydd y Canllawiau Statudol yn ceisio dehongli'r ddeddfwriaeth, egluro'r prosesau a'r trefniadau a dwyn ynghyd yr holl ganllawiau blaenorol mewn un ddogfen.
e.e. Ar hyn o bryd gofynnir i Aelodau am eu barn ar amserau cyfarfodydd, ond bydd y canllawiau'n egluro materion sydd i'w hystyried megis
- a yw'n well cael cyfarfodydd yn ystod y dydd neu gyda'r nos
- a yw cyfarfodydd yn mynd i fod mewn sawl lleoliad
- beth yw hyd delfrydol y cyfarfodydd

- a yw amseroedd penodol yn achosi anawsterau i gynghorwyr sydd â nodweddion penodol megis rhywedd, crefydd, bod â chyfrifoldebau gofalu neu fod mewn cyflogaeth.

**Dyletswydd i annog pobl leol i gyfranogi pan fo prif gynghorau yn gwneud penderfyniadau**

Mae adrannau 39-41 o Bennod 4 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn mynnu bod rhaid i brif gyngor lunio a chyhoeddi "strategaeth cyfranogiad y cyhoedd" sy'n cynnwys hybu ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r cyngor, sut mae dod yn aelod, beth mae aelodaeth yn ei olygu, dulliau o'i gwneud yn fwy hwylus i bobl gael gwybodaeth am benderfyniadau a wnaed neu sydd i'w gwneud, cyflwyno sylwadau, dwyn safbwyntiau'r cyhoedd i sylw pwyllgorau trosolwg a chraffu a hybu ymwybyddiaeth ymhlith aelodau o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol.

Cyflwynwyd y polisi cyfranogi drafft i'r Cabinet ar 2 Tachwedd 2021 a bu ymgynghoriad cyhoeddus gyda thrigolion Ceredigion yn dilyn hynny. Bydd y polisi'n cael ei adolygu ar ôl derbyn y Canllawiau Statudol Terfynol oddi wrth Lywodraeth Cymru, cyn eu cyflwyno i'r Cyngor yn ystod y Weinyddiaeth nesaf.

Daw'r ddarpariaeth hon i rym ar 5 Mai 2022, ond ni ddisgwylir y canllawiau statudol terfynol tan fis Medi 2022.

**Dyletswydd i wneud cynllun deisebau**

Mae adran 42 o Bennod 4 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn ymwneud â'r gofyniad i wneud cynllun deisebau, gan gynnwys deisebau electronig.

Bydd system ddeisebau ar-lein ar gael drwy system rheoli cyfarfodydd Modern.gov a chaiff cynllun interim ei ddrafftio. Ar ôl derbyn y Canllawiau Statudol gan Lywodraeth Cymru bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo a nodir hyd a lled y system e-ddeisebau.

Daw'r ddarpariaeth hon i rym ar 5 Mai 2022, ond ni ddisgwylir y canllawiau statudol terfynol tan fis Medi 2022.

**Dyletswydd i gyhoeddi cyfeiriadau swyddogol**

Mae adran 43 o Bennod 4 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn mynnu bod prif gyngor yn cyhoeddi cyfeiriad electronig a chyfeiriad post ar gyfer pob aelod o'r cyngor, fel bod modd anfon gohebiaeth ar gyfer yr aelod i'r cyfeiriadau hyn.

Mae cyfeiriadau electronig a chyfeiriadau post y rhan fwyaf o Aelodau Cyngor Sir Ceredigion ar wefan y Cyngor ar hyn o bryd. Daw'r ddarpariaeth hon i rym ar 5 Mai 2022 a bydd cyfeiriadau electronig ar gyfer pob Aelod yn cael eu hychwanegu i wefan y Cyngor yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022. Nid oes rhaid nodi cartref y Cynghorydd fel cyfeiriad post.

**Darlledu cyfarfodydd yn electronig**

Mae adrannau 46-51 o Bennod 4 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn cynnig bod prif gynghorau yn gwneud a chyhoeddi trefniadau i sicrhau bod darllediad

o drafodion cyfarfod ar gael fel bod aelodau o'r cyhoedd sydd ddim yn y cyfarfod yn gallu gweld a chlywed y trafodion, a bod y darllediad ar gael am gyfnod penodedig ar ôl y cyfarfod. Bydd hyn yn gymwys i gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd, gan gynnwys gweithrediaeth prif gyngor, pwyllgor neu is-bwyllgor i weithrediaeth prif gyngor, pwyllgor neu is-bwyllgor i brif gyngor, cyd-bwyllgor, neu is-bwyllgor i gyd-bwyllgor, o ddau brif gyngor neu ragor.

Dywed y ddeddfwriaeth fod Gweinidog Cymru yn gallu, drwy reoliad, gwneud rhagor o ddarpariaethau mewn perthynas â darlledu trafodion cyfarfod. Ar hyn o bryd rydym yn aros am Ganllawiau Statudol i egluro pa gyfarfodydd y bydd angen eu darlledu, ond rhagwelir mai'r gofyniad lleiaf fydd darlledu cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Yn dilyn cais llwyddiannus am gyllid y llynedd i dalu am y gost o brynu a gosod caledwedd a fydd yn uwchraddio Siambr y Cyngor i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth parthed cyfarfodydd hybrid, mae'r system honno wrthi'n cael ei gosod. Fodd bynnag, bu'n her cael gafael ar rannau megis microsglodion ac mae hyn wedi oedi'r broses osod.

Yn unol â'r ddeddfwriaeth, drafftiwyd protocolau ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad. Caiff y rhain eu hadolygu ar ôl derbyn y Canllawiau Statudol Terfynol gan Lywodraeth Cymru, cyn eu cyflwyno wedyn i'r Cyngor yn ystod y Weinyddiaeth nesaf.

Nid oes dyddiad eto ar gyfer cael y canllawiau statudol gan Lywodraeth Cymru.

**Camau nesaf**
Ar ôl derbyn y Canllawiau Statudol Terfynol gan Lywodraeth Cymru, bydd yr holl bolisïau, gweithdrefnau a phrotocolau drafft yn cael eu hadolygu cyn eu cyflwyno i'r Cyngor i'w hystyried. Oherwydd yr oedi cyn derbyn y Canllawiau, ac oherwydd bod y cyfnod cyn-etholiadol ar fin dechrau, bydd yr adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor yn ystod y Weinyddiaeth nesaf.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | **Bod y Pwyllgor yn nodi'r elfennau o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.** |
| **Atodiadau:** | **Dim** |
| **Papurau Cefndirol:** | **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021:** https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=26688 |

| | |
|---|---|
| **Enw:** | **Nia Jones** |
| **Teitl swydd:** | **Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **22.02.2022** |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 6

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

**Dyddiad:** **7 Mawrth 2021**

**Teitl:** **Gweledigaeth ar gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid o fis Mai 2022.**

**Diben yr adroddiad:** **Darparu trosolwg i aelodau o'r modd y cynhelir cyfarfodydd hybrid o fis Mai 2022 ymlaen**

**Cefndir**

Mae Adran 47, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn nodi bod yn rhaid i'r prif gynghorau baratoi a chyhoeddi trefniadau at ddiben sicrhau y gellir cynnal cyfarfodydd awdurdod lleol o 5 Mai 2022 ymlaen drwy gyfrwng unrhyw gyfarpar neu gyfleuster arall sy'n galluogi unigolion nad ydynt yn yr un lle i fynychu'r cyfarfodydd, i siarad â'i gilydd ac i gael eu clywed gan ei gilydd, ac yn achos cyfarfodydd sydd i'w darlledu (o dan Adran 46 y rheoliadau), i siarad â'i gilydd, i gael eu clywed gan ei gilydd ac i gael eu gweld gan ei gilydd.

Gwnaeth Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 a ddaeth i rym ar 22 Ebrill 2020 ddarpariaeth mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau lleol, o ganlyniad i haint COVID-19. Roedd y rheoliadau'n ymwneud â chymryd rhan mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng 22 Ebrill 2020 a 1 Mai 2021. O ganlyniad i'r rheoliadau hyn, cafodd pob un o gyfarfodydd Cyngor Sir Ceredigion a oedd yn agored i'r cyhoedd eu cynnal o bell. Mae'r trefniadau hyn wedi parhau a bellach maent yn ffurfio rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a byddant yn sail i'r trefniadau hybrid ar ôl 5 Mai 2022 lle bo Aelodau, Swyddogion a'r cyhoedd yn gallu mynychu cyfarfodydd o bell neu ddod eu hunain i leoliad y cyfarfod.

**Mynychu lleoliad y cyfarfod neu fynychu o bell**

Bydd Aelodau, Swyddogion ac aelodau'r cyhoedd yn gallu dod eu hunain i Swyddfa'r Cyngor ym Mhenmorfa, Aberaeron ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor sy'n agored i'r cyhoedd neu gallant fynychu'r cyfarfod o bell (lle bynnag y bo hynny'n bosibl). Dylid nodi y gall fod cyfyngiad ar y niferoedd a gaiff fod yn bresennol yn yr adeilad oherwydd faint o le sydd ar gael ac unrhyw reoliadau neu ganllawiau a allai fodoli ar y pryd, er enghraifft y rheoliadau/canllawiau i gadw pellter cymdeithasol o 1 neu 2 fetr sydd wedi bodoli yn y gorffennol.

Mae'r gwaith o osod cyfarpar i hwyluso cyfarfodydd hybrid yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a bydd canllawiau manwl yn cael eu darparu pan fydd y gwaith hwnnw wedi ei gwblhau ac wedi i Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd gael hyfforddiant sut i'w ddefnyddio. Ni dderbyniwyd Canllawiau Statudol Terfynol oddi wrth Lywodraeth Cymru ac ar hyn o bryd ni chafwyd amcan ddyddiad ar gyfer derbyn y canllawiau hyn. Yn y cyfamser, *rhagwelir* y bydd y canlynol yn berthnasol.

**Darparu gwybodaeth cyn cyfarfodydd**

Yn unol â'r arfer ar hyn o bryd, bydd gofyn i Aelodau ddarparu'r wybodaeth ganlynol cyn y cyfarfod:

- Ymddiheuriadau
- Nodi a ydynt am ddod eu hunain i leoliad y cyfarfod neu a fyddant yn mynychu'r cyfarfod o bell
- Darparu manylion unrhyw ddatganiadau buddiant
- Darparu manylion unrhyw faterion personol y maent am eu cyflwyno
- Dylai Aelodau nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor hysbysu'r Cadeirydd a hwylusydd y cyfarfod cyn y cyfarfod os ydynt am siarad ar eitem benodol sydd ar yr agenda.

Gall aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, fel y nodir yn y protocolau perthnasol. Mae'r protocolau yn mynnu bod aelodau'r cyhoedd yn rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Democrataidd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod os ydynt am wneud cais i annerch y Pwyllgor. O fis Mai 2022 ymlaen, bydd unrhyw aelod o'r cyhoedd a fydd yn annerch pwyllgor o'r fath yn gallu gwneud hynny o bell neu drwy fod yn bresennol yn Siambr y Cyngor.

Cyn y cyfarfod, bydd hwylusydd y cyfarfod yn rhoi crynodeb i'r Cadeirydd, gan gadarnhau'r manylion y gofynnwyd amdanynt cyn y cyfarfod, gan gynnwys ymddiheuriadau, materion personol a datganiadau buddiant ac ati yn y drefn y'u derbyniwyd.

**Mecanwaith ar gyfer cynnal y cyfarfod**
Rheolir y cyfarfod drwy gyfrwng System Rheoli Gyfrifiadurol a fydd yn gofalu am reoli'r meicroffon, pleidleisio, amseru anerchiadau a thracio'r camera yn awtomatig ar gyfer pob system feicroffon analog (yn y lleoliad) a digidol (o bell). Bydd aelodau a fydd yn mynychu lleoliad y cyfarfod yn cael mynediad at yr opsiynau hyn drwy gyfrwng uned y meicroffon, tra bo Aelodau sy'n mynychu o bell yn cael mynediad atynt yn uniongyrchol drwy sgrin y cyfrifiadur neu drwy ddefnyddio llygoden neu sgrin gyffwrdd. Gellir gweithredu system y meicroffon mewn un o ddau ddull: y Dull Canolog a'r Dull Unigol. Yn y Dull Canolog, rheolir y meicroffonau gan y Cadeirydd ac mae'r Aelodau'n gwneud cais i siarad, ar y llaw arall pan ddefnyddir y Dull Unigol, yr Aelodau sy'n rhoi'r meicroffonau ar waith ac yn eu diffodd yn uniongyrchol. Mae'r Dull Unigol yn fwyaf addas ar gyfer cyfarfodydd bach. Rhoddir system dracio'r camera ar waith yn awtomatig er mwyn panio i feicroffonau byw.

Cyn cyfarfod, bydd angen bwydo gwybodaeth i'r system am y sawl fydd yn mynychu lleoliad y cyfarfod, er mwyn i'r wybodaeth gael ei harddangos ar y sgrin yn ystod y cyfarfod, pan fo Aelodau yn gwneud cais i siarad a thra bo meicroffonau'n cael eu galluogi. Os bydd yr Aelodau'n penderfynu rhoi'r opsiwn pleidleisio ar waith yn hytrach na galw rhestr enwau allan ar gyfer pob eitem, mae'n hanfodol bod yr wybodaeth wedi ei gosod ymlaen llaw, a bod Aelodau'n hysbysu Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd cyn y cyfarfod, gan roi gwybod a fyddant yn mynychu o bell neu yn dod eu hunain i leoliad y cyfarfod.

Bydd y cyfleuster cyfieithu yn rhyngwynebu drwy glustffonau i'r sawl fydd yn dod i leoliad y cyfarfod a thrwy opsiwn dewis iaith i'r rhai fydd yn mynychu o bell.

Bydd angen ystyried sut y defnyddir y system newydd yn y weinyddiaeth newydd wedi i ni dderbyn y Canllaw Statudol terfynol a phan fyddwn wedi dod i ddeall holl bosibiliadau'r system.

| | |
|---|---|
| **Argymhellion:** | **Argymhellir bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad.** |
| **Atodiadau:** | **Dim** |
| **Dogfennau Cefndir:** | **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021:** https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=26688 |

| | |
|---|---|
| **Enw:** | **Nia Jones** |
| **Teitl y Swydd:** | **Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **22.02.2022** |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 7

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **7 Mawrth 2021** |
| **Teitl:** | **Rhaglen Ymsefydlu Aelodau 2022** |
| **Diben yr adroddiad:** | **Darparu diweddariad ar y rhaglen ar gyfer Aelodau yn dilyn Etholiadau Cyngor Sir ym mis Mai 2022** |

**Cyflwyniad**
Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor ar 12 Hydref 2021 yn amlinellu'r Rhaglen Sefydlu ar gyfer Aelodau newydd a rhai sy'n dychwelyd yn dilyn Etholiadau'r Cyngor Sir a gynhelir ar 5 Mai 2022, gan nodi bod dyddiadau ac amseroedd yn destun newid. Yn ystod y cyfarfod nododd yr Aelodau fod dyletswydd ar bleidiau gwleidyddol i arwain ar nifer o'r eitemau ac y byddai hyfforddiant yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall Aelodau ddarparu lefel uchel o gymorth i'w trigolion.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi hyfforddiant a datblygiad aelodau awdurdod lleol. Mae adran 7(4) yn nodi:

*(4) wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru*

Rhagwelir y bydd canllawiau'n cael eu darparu fel rhan o'r bwndel o ganllawiau Statudol ac Anstatudol sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru a fydd yn egluro'r gofynion ar gyfer darparu cyfleoedd i aelod o awdurdod lleol gyflawni ei rôl yn effeithiol, gan ystyried diwygiadau i'r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 megis diwygio cylch gwaith Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio ac annog y cyhoedd i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Bydd angen i gynghorau gael 'diffiniad byw' o'r hyn sy'n gyfystyr ag anghenion hyfforddi a datblygu rhesymol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn aml.

O ganlyniad, mae Rhaglen Sefydlu'r Aelodau wedi'i hadolygu a'i diweddaru, fel y nodir yn Atodiad A.

| | |
|---|---|
| **Argymhellion:** | **Cytuno ar y rhaglen Sefydlu Aelodau wedi'i diweddaru ar gyfer Aelodau yn dilyn Etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai 2022.** |
| **Atodiadau:** | **Atodiad A – Rhaglen Sefydlu Aelodau ddrafft 2022** |
| **Dogfennau Cefndir:** | **Deddf Llywodraeth Leol 1972**<br>**Mesur Llywodraeth Leol 2011**<br>**Deddf Democratiaeth Leol 2013** |

**Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**
**Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion**

| | |
|---|---|
| **Enw:** | **Nia Jones** |
| **Teitl y Swydd:** | **Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **23.02.2022** |

# Rhaglen Sefydlu a Hyfforddi Aelodau 2022

**Cynhelir yr hyfforddiant i gyd yn Siambr y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron neu o bell drwy fideo-gynadledda <u>os na nodir yn wahanol isod</u>**

| **Dyddiad** | **Amser** | **Manylion** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|
| 9 Mai | 10.00am | Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Newydd | Gorfodol ar gyfer <u>**pob**</u> Cynghorydd newydd |
| | 2:00pm | Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau sy’n dychwelyd | Gorfodol ar gyfer <u>**pob**</u> Cynghorydd sy’n dychwelyd |
| 10 Mai | 10.00am | Cyflwyniad i'r Cyngor gan gynnwys Modern.gov, system hybrid, GDPR / Rheoli Data | Gorfodol ar gyfer <u>**pob**</u> Cynghorydd |
| 23 Mai | 10.00am | Rôl a swyddogaeth aelodau Cabinet gan gynnwys gwneud penderfyniadau effeithiol | Gorfodol ar gyfer <u>**pob**</u> Aelod o’r Cabinet |
| 24 Mai | 2:00pm | Rôl a Swyddogaethau’r Pwyllgor Moeseg a Safonau | Gorfodol ar gyfer <u>**pob**</u> Aelod |
| 27 Mai | 10.00am | Hyfforddiant ar y Pwyllgor Rheoli Datblygu | Gorfodol ar gyfer <u>**pob**</u> Aelod |
| 6 Mehefin | 10.00am | Rôl a Swyddogaethau’r Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol | Gorfodol ar gyfer <u>**pob**</u> Arweinydd Grŵp |
| 7 Mehefin | 2:00pm | Hyfforddiant ar gyfer Aelodau Lleyg | Gorfodol ar gyfer <u>**pob**</u> Aelod Lleyg |
| 8 Mehefin | 10.00am | Rôl Trosolwg a Chraffu i gynnwys perfformiad a hunan-asesu | Gorfodol ar gyfer <u>**pob**</u> aelod o’r <u>**Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**</u> |
| 9 Mehefin | 9:30am | Cadeirio Trosolwg a Chraffu | Gorfodol ar gyfer <u>**holl Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**</u> |
| | 2:00pm | Rôl y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Gorfodol ar gyfer <u>**pob**</u> aelod o’r <u>**Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**</u> |
| 10 Mehefin | 10.00am | Cyflwyniad i Safonau’r Iaith Gymraeg | Gorfodol ar gyfer <u>**pob**</u> Aelod |
| 14 Mehefin | 10.00am | Cefnogaeth ac Arweiniad ar sut i gwblhau cyrsiau hyfforddiant ar lein | Gorfodol ar gyfer <u>**pob**</u> Aelod |
| 16 Mehefin | 10.00am | Iechyd a Diogelwch ar gyfer Cynghorwyr, gan gynnwys gweithio ar eich pen eich hun, a diogelwch personol | Gorfodol ar gyfer <u>**pob**</u> Aelod |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 22 Mehefin | 2.00pm | Hyfforddiant ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | Gorfodol ar gyfer **pob** aelod o'r **Pwyllgor Archwilio*** |
| 23 Mehefin | 9.30am | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gwneud penderfyniadau effeithiol | Gorfodol ar gyfer **pob** Cynghorydd |
| 4 Gorffennaf | 10.00am | Hyfforddiant ar y Pwyllgor Trwyddedu | Gorfodol ar gyfer **pob** aelod o'r **Pwyllgor Trwyddedu*** |
| 6 Gorffennaf | 9.30am a 2.00pm | Diogelu – Hyfforddiant Lefel 1 | Gorfodol ar gyfer **pob** Cynghorydd |

*Sylwer – ni chaniateir i chi eistedd ar y Pwyllgorau hyn os nad ydych wedi mynychu'r hyfforddiant gorfodol.

Gweithgareddau hyfforddi ychwanegol i'w trefnu Medi – Rhagfyr 2022

| | |
|---|---|
| • hyfforddiant dal i fyny, rheoli datblygu ar gyfer Aelodau newydd (dechrau mis Medi)<br>• Gofyn a Gweithredu (VAWDASV)<br>• ATAL (PREVENT & WRAP)<br>• Caethwasiaeth Fodern<br>• Rheoli Data a Rhyddid Gwybodaeth<br>• Cyllid yn cynnwys cyllidebu a rheoli trysorlys | • Troseddau Casineb<br>• Cyflwyniad i Gydraddoldebau<br>• Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol fel Cynghorydd a diogelwch ar-lein<br>• Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)<br>• Diogelu Lefel 2 ar gyfer Aelodau perthnasol |

## Modiwlau e-Ddysgu

Bydd gan bob Cynghorydd fynediad hefyd i'r modiwlau e-ddysgu ar Borth Academi Cymru Gyfan.

Eitem Agenda 8

**Cyngor Sir CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD:** | **7 Mawrth 2022** |
| **LLEOLIAD:** | **Cyfarfod Rhithiol** |
| **TEITL:** | **Hunanwerthuso'r trefniadau craffu** |

Yng nghyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2018, cytunwyd y byddai'r Swyddogion Craffu yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau Trosolwg a Chraffu yng Nghyngor Sir Ceredigion ac y byddai hyn yn cael ei wneud bob blwyddyn yn y dyfodol.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2020, penderfynwyd gwneud y canlynol:
a) Parhau i gynnal yr arolwg yn flynyddol;
b) Lleihau nifer y cwestiynau gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad;
c) Adolygu fformat yr adroddiad, cyfuno'r ymatebion Cymraeg a Saesneg, a chyfieithu'r ddogfen yn ei chyfanrwydd.

Mae'r ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd i'w gweld yn Atodiad A. Cafwyd cyfanswm o 15 o ymatebion, mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu â'r 25 o ymatebion a dderbyniwyd yn 2020. Roedd rhai aelodau wedi ymateb ar-lein a rhai wedi ymateb drwy'r post. Nid yw enwau'r Aelodau yn cael eu datgelu.

Ystyriwyd yr adroddiad gan Aelodau'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2021 ac fe gytunwyd i nodi'r ymatebion a dderbyniwyd.

**ARGYMHELLIAD:**

Ystyried yr ymatebion a ddaeth i law o'r holiadur ynghylch hunanwerthuso'r trefniadau craffu (Atodiad A) a nodi unrhyw feysydd i'w gwella, os oes angen.


| | |
|---|---|
| Enw Cyswllt: | Lisa Evans |
| Swydd: | Swyddog Craffu a Safonau |
| Dyddiad yr Adroddiad: | 2 Rhagfyr 2021 |

# Hunanarfaru Craffu / Scrutiny Self-Evaluation 2020/21

15 Responses 04:28 Average time to complete Active Status

1. Mae Partneriaethau a sefydliadau partner wedi bod yn destun Craffu effeithiol / Partnerships and partner organisations have been the subject of effective Scrutiny

| | |
|---|---|
| Anghytuno'n gryf / Strongly di... | 0 |
| Anghytuno / Disagree | 1 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghy... | 3 |
| Cytuno / Agree | 10 |
| Cytuno'n gryf / Strongly Agree | 1 |



2. Mae'r cyhoedd yn gallu cyfrannu at y gwaith trosolwg a chraffu / The public able to contribute to overview and scrutiny

| | |
|---|---|
| Anghytuno'n gryf / Strongly di... | 0 |
| Anghytuno / Disagree | 2 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghy... | 4 |
| Cytuno / Agree | 9 |
| Cytuno'n gryf / Strongly Agree | 0 |



3. Mae gan Craffu berchnogaeth dros ei raglen waith ei hun / Scrutiny have ownership of its own work programme

| | |
|---|---|
| Anghytuno'n gryf / Strongly di... | 0 |
| Anghytuno / Disagree | 0 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghy... | 3 |
| Cytuno / Agree | 7 |
| Cytuno'n gryf / Strongly Agree | 5 |



4. Mae aelodau'r pwyllgor Craffu o'r farn fod ganddynt rôl werthfawr a boddhaus / Scrutiny members consider that they have a worthwhile and fulfilling role

| | |
|---|---|
| Anghytuno'n gryf / Strongly di... | 0 |
| Anghytuno / Disagree | 2 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghy... | 2 |
| Cytuno / Agree | 11 |
| Cytuno'n gryf / Strongly Agree | 0 |



5. Mae yna bartneriaeth waith adeiladol gyda'r swyddogion / There is a constructive working partnership with officers

| | |
|---|---|
| Anghytuno'n gryf / Strongly di... | 0 |
| Anghytuno / Disagree | 0 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghy... | 2 |
| Cytuno / Agree | 12 |
| Cytuno'n gryf / Strongly Agree | 1 |



6. Mae digon o drefniadau cymorth ar gael i'r broses Graffu / There is sufficient support arrangements for scrutiny

| | |
|---|---|
| Anghytuno'n gryf / Strongly di... | 0 |
| Anghytuno / Disagree | 1 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghy... | 2 |
| Cytuno / Agree | 9 |
| Cytuno'n gryf / Strongly Agree | 3 |



7. Darperir hyfforddiant a datblygiad gyda'r nod o wella craffu / Training and development has been provided with a view to improving scrutiny




8. Mae newidiadau wedi digwydd o ganlyniad i waith craffu / Changes have been brought about as a result of scrutiny activity




9. Mae cyfarfodydd Craffu sy'n cael eu cynnal o bell drwy fideogynadledda yr un mor effeithiol â chyfarfodydd yn adeiladau'r Cyngor / Scrutiny meetings held remotely by video-conferencing are as effective as meetings in person



# Tudalen 29

Powered by Microsoft Forms (https://forms.office.com) | Privacy and cookies (https://go.microsoft.com/fwlink/?LinkId=521839) | Terms of use (https://go.microsoft.com/fwlink/?linkid=866263)

## 10. Sylwadau / Comments

Perhaps greater clarity is required for some of the questions, e.g. for the training question, I recall in particular a training session by WLGA but that wasn't during the period under review. Public participation in scrutiny, I'm unsure as to how to respond in terms of the public being invited to provide views to scrutiny as opposed to the public making their views known, e.g safe zones, music service, gold command. I know that we will be engaging with tenants on the issue of county farms, but that is not the same as the general public. The Authority consults with the Public seeking views on different policies, which might inform discussions at scrutiny, but that is not the same as involving them in a piece of scrutiny work. Are the questions produced by the Authority or are they set by external bodies, if they are internal, it might be worth considering a discussion within the overview committee that has as its membership every Chair/ Vice Chair to see how some of the questions are framed.

Er bod cyfarfodydd rhithiol wedi siwtio sawl aelod, nid yw'n ddelfrydol ar gyfer pawb felly bydd system 50:50, pan ddaw, yn rhoi'r dewis i bobl p'run ai gweithredu o adre neu mynd i adeilad(au)'r Cyngor. Serch hynny, o ran y pwyllgor craffu Dysgu, teimlo'n gryf bod hwn wedi gweithredu'n effeithiol.

Too many agenda items limit the time to discuss properly.This is forgetting that the agendas need to be read. Scrutiny members do not have access to dual screens in order to pick points from agendas as well as following the speakers on video. Reluctance to allow questioning of people with letters behind their names. Limitation on No of questions to be asked.